GWASANAETH TÂN AC ACHUB DE CYMRU

Y FANYLEB PERSON

ADRAN	Adran Gwasanaethau Eiddo
TEITL Y SWYDD	Rheolwr/Cydlynydd Adeiladau a Chynnal a Chadw
RHIF Y SWYDD	502964
GRADD	Llwybr Graddfa 9 – 13
LLEOLIAD	Pencadlys Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru, Llantrisant

Defnyddir meini prawf hanfodol **a amlygir** ac a nodir â seren***** at ddibenion llunio rhestr fer. A wnewch chi sicrhau yr ewch i'r afael â'r gofynion hyn yn eich Ffurflen Gais (o dan yr Adran *'Profiad a Gwybodaeth Arall'*). Dylech ddarparu tystiolaeth eglur sy'n arddangos eich bod yn cwrdd â phob maes ar sail eich sgiliau, gwybodaeth, profiad a gallu sy'n berthnasol i'r swydd.

Lle amlygir cymhwyster fel 'Maen Prawf Hanfodol', bydd angen i chi ddarparu copi o'ch Tystysgrifau ynghyd â'ch Ffurflen Gais.

Ffactor	**Tystiolaeth**	**Hanfodol/ Dymunol**	**Dull Canfod**
Cymwysterau	**Cymhwyster proffesiynol mewn Rheoli Prosiectau Adeiladu a phrofiad/neu brofiad perthnasol o fewn amgylchedd adeiladu**	**Hanfodol***	**Ffurflen Gais*/** Tystysgrif
	Cymhwyster ymwybyddiaeth o asbestos	Dymunol	Tystysgrif
Ffactor	**Tystiolaeth**	**Hanfodol/ Dymunol**	**Dull Canfod**
Gwybodaeth / Profiad	**Profiad o reoli darpariaeth gwaith a gynlluniwyd a gwaith adweithiol ar gyfer portffolio eiddo**	**Hanfodol***	**Ffurflen Gais*/** Y Broses Ddethol
	Profiad o ragdrefnu manylebau a rheoli'r broses gaffael ar gyfer penodi contractwyr/ymgynghorwyr mewn perthynas â gweithfeydd cynnal a chadw a gynlluniwyd ac adweithiol	**Hanfodol***	**Ffurflen Gais*/** Y Broses Ddethol

	Gwybodaeth ymarferol o Becynnau Microsoft Office, e.e. Outlook, Word, Excel ac ati.	Hanfodol	Y Broses Ddethol
	Profiad o reoli prosiectau mawr a gweithredu amodau ffurfiau safonol cytundebau adeiladu	Hanfodol	Ffurflen Gais/Proses Ddethol
	Profiad o roi cyngor ar faterion adeiladu i ddarparu'r datrysiadau gwerth gorau o fewn amgylchedd sector cyhoeddus	Dymunol	Ffurflen Gais
	Y gallu i gyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg	Dymunol	Ffurflen Gais
Arddull Bersonol	Meddu ar ddealltwriaeth a pharch o wahaniaethau pobl a bod yn ymrwymedig i fabwysiadu agwedd deg tuag at eraill	Hanfodol	Y Broses Ddethol
	Y gallu i weithio mewn cydymffurfedd llwyr â pholisïau/gweithdrefnau gweithredol a chyfarwyddyd deddfwriaethol a gofynion statudol	**Hanfodol***	**Ffurflen Gais*/** Y Broses Ddethol
Ffactor	**Tystiolaeth**	**Hanfodol/ Dymunol**	**Dull Canfod**
Rhyngbersonol	**Y gallu i weithio'n effeithiol gydag eraill o fewn y Gwasanaeth Tân ac Achub ac â chontractwyr allanol ill dau.**	**Hanfodol***	**Ffurflen Gais*/**Proses Ddethol
	Y gallu i gyfathrebu'n effeithiol ar lafar ac yn ysgrifenedig ill dau i ystod eang o wahanol gynulleidfaoedd.	Hanfodol	Y Broses Ddethol
	Yr ymrwymiad a'r gallu i ddatblygu eich hun, unigolion a thimau, i wella effeithiolrwydd gweithredol.	Hanfodol	Y Broses Ddethol

Tasg	**Y gallu i ddeall, dwyn i gof, cymhwyso ac addasu gwybodaeth berthnasol mewn modd trefnus, diogel a systematig i wneud penderfyniadau priodol a chreu datrysiadau ymarferol, h.y. sgiliau datrys problemau a meddwl ochrol da**	**Hanfodol***	**Ffurflen Gais***/ Y Broses Ddethol
	Y gallu i weithio yn ôl terfynau amser tynn a blaenoriaethau sy'n newid	Hanfodol	Y Broses Ddethol
	Y gallu i gynnal ymwybyddiaeth weithredol o'r amgylchedd i hyrwyddo dulliau gwaith diogel ac effeithiol	Hanfodol	Y Broses Ddethol
	Y gallu i fabwysiadu agwedd gydwybodol a rhagweithiol at waith i gyflawni a chynnal safonau rhagorol	Hanfodol	Y Broses Ddethol

Mae'r holl ddogfennaeth ar gael yn Gymraeg a Saesneg ill dau a chroesawn gyfathrebiadau yn y naill iaith â'r llall.

Mae'r swydd hon yn cynnwys teithio ar hyd ardal y Gwasanaeth. Fel arall, bydd angen i'r ymgeisydd llwyddiannus fod â'r gallu i deithio.

Mae'n ofyniad i ddeiliad y swydd gael ei gynnwys/ei chynnwys o fewn rota 'ar alwad' yn ymateb i faterion cynnal a chadw y tu allan i oriau swyddfa.